

www.womansarchivewales.org

## Llwyddiant gydag ariannu Lleisiau o Lawr y Ffatri!

Rhaid cydnabod ein diolch diffuant am roddion hael iawn gan elusennau, undebau ac unigolion; ac yn awr mae gennym yr holl arian angenrheidiol ar gyfer ein prosiect LIFf. Rydym newydd dderbyn grant hael dros ben gan yr Ashley Family Foundation, a hynny yn ychwanegol at roddion arbennig gan undebau Unite a Community. Ac mae'n haelodau wedi bod yn eithriadol gefnogol hefyd. Yn ystod ein Cynhadledd ym Merthyr Tudful eleni cyfrannodd y mynychwyr y swm rhyfeddol o £830 (a fydd yn denu £103.75 mewn Cymorth Rhodd) yn yr amlenni casglu. Ac am rodd annisgwyl gweler stori Gail Allen ar dudalen2.



Mae'r tair Swyddog Maes, Catrin Edwards (yn y de-ddwyrain), Susan Roberts (de-orllewin) a Kate Sullivan (gogledd) wedi dechrau ar y gwaith, yn darganfod a recordio menywod ledled Cymru, yn trawsysgrifio'r recordiadau, yn sganio ffotograffau a dogfennau ac yn trefnu sesiynau hyfforddi gyda gwirfoddolwyr. Gellir gweld dwy wirfoddolwraig ar y dde yn dysgu sut i ddefnyddio offer recordio mewn sesiwn yn Archifdy Morgannwg.



Mae blog Lleisiau o Lawr y Ffatri wedi ei sefydlu, yn gysylltiedig â thudalen Newyddion y wefan. Bydd hyn yn helpu aelodau ac eraill i ddilyn hynt a helynt y prosiect.



## Dadorchuddio Emily

Yn ddiweddar cyhoeddodd Cyngor Abertawe gynllun Placiau Gleision ar gyfer y ddinas gyda'r bwriad o ddathlu trigolion nodedig Abertawe ar y naill law a thynnu sylw at adeiladau a lleoliadau hanesyddol ar y llaw arall. Ar unwaith cyflwynodd aelodau lleol AMC/WAW enwau menywod haeddiannol, ac rydym wrth ein bodd i ddweud fod y plac cyntaf i fenyw wedi'i ddadorchuddio ar 18 Tachwedd. Mae'n coffáu Emily Phipps, ac mae wedi'i osod ar fur Clinig Canolfan Orchard yn Trinity Place ar safle Ysgol Uwchradd y Merched Abertawe, lle bu hi'n



Avril Rolph, Gail Allen a Jennifer Sabine yn y seremoni i ddadorchuddio plac glas Emily Phipps

brifathrawes. Oherwydd y bomio adeg y rhyfel a'r ailadeiladu, mae ardal a fu unwaith yn brysur iawn bellach yn dawel braidd, felly mae'n glod i gyngor y ddinas iddo ddewis coffáu'r wraig ryfeddol hon. Er gwaetha'r glaw daeth 22 o bobl ynghyd: cynghorwyr y ddinas gan gynnwys yr Arweinydd, aelodau o Fwrdd Lechyd Abertawe Bro Morgannwg (sydd berchen yr adeilad), aelodau AMC/WAW a sawl person arall oedd wedi darllen am y digwyddiad. Siaradodd Avril Rolph am Emily Phipps, gan nodi mai'r person cyntaf i ymchwilio hanes Emily oedd ein sefydlydd, y diweddar Dr Ursula Masson. Ar ôl i Christine Richards, y Dirprwy Arweinydd, ddadorchuddio'r plac siaradodd Andrew Davies, y cyn-AC a Chadeirydd presennol y Bwrdd Lechyd ar ran yr Ymddiriedolaeth, a dwedodd mor ysbrydoledig oedd hi i glywed am waith Ursula gan ei fod ef yn ei hadnabod yn dda fel cymydog pan oedd hi'n byw yn Abertawe.

Y mae un arall o'r menywod a awgrymwyd gennym wedi ei dewis eisoes ar gyfer placiau'r flwyddyn nesaf. Gobeithiwn sicrhau dathlu o leiaf un fenyw'r flwyddyn.

Jenny Sabine.

Gwelir cofnod Avril am Emily Phipps yn Wikipedia ar [http://en.wikipedia.org/wiki/Emily\\_Frost\\_Phipps](http://en.wikipedia.org/wiki/Emily_Frost_Phipps)

## Fideos Grŵp Hanes Menywod Abertawe

30 mlynedd yn ôl, gwnaeth tair menyw frwdfrydig yn Abertawe, fideos cyffrous ar hanes menywod. Cwrddodd .



Ffotograff gan Jaclyn Gier, 1984. Hanesydd Ffeminyddol ymweliadol o America. O'r chwith i'r dde: Ursula Masson, Jen Wilson, Gail Allen

Ursula Masson, Gail Allen a Jen Wilson yng Nghanolfan Menywod Abertawe yn Stryd Singleton, a chrëwyd cyswllt cryfach wrth iddynt gefnogi Gwersylloedd Heddwch Greenham. Trwy eu diddordeb cynyddol mewn ymchwilio i hanes swffragetiaid Abertawe, a sbardunwyd gan Ursula, ffurfiwyd Grŵp Hanes Menywod Abertawe; ac arweiniodd hynny at hyfforddiant gyda chamerau fideo yn DACE, Prifysgol Abertawe a Gweithdy Fideo a Ffilm Gorllewin Morgannwg.

Y canlyniad oedd cynhyrchu pedair rhaglen ddogfen fideo 30 munud ddifyr ar

fformat VHS: *Smiling and Splendid Women* am Fenywod y Grwpiau Cefnogi yn Streic y Glowyr, *Swansea Conchie Controversy* am fenywod oedd yn wrthwynebwyr cydwybodol yn yr Ail Ryfel Byd, *Back of the Front Line*, am fenywod y ffatrioedd arfau, a *Portrait of the Artist as an Older Woman*, yn seiliedig ar gerddi Penny Windsor. At hyn mae darnau amrwd o ffilm am gau Uned Famolaeth Mount Pleasant, *The Last Day*, ac o'r defnydd a ddefnyddiwyd yn *Smiling and Splendid Women*.

Ar ôl eu dangos yn lleol yn yr 1980au, rhoddwyd rhai o'r tapiau ar adnau yn Llyfrgell y Glowyr, Abertawe, ond roedd y gweddill yn hel llwch mewn atigau. Yn ddiweddarach daeth Grŵp Hanes Menywod Abertawe yn rhan o Jazz Heritage Wales. Y llynedd, roedd un o'r gwirfoddolwyr, wedi clywed am y fideos yn awyddus i'w rhoi ar fformat mwy parhaol, a'u gwneud yn hygyrch i gynulleidfa ehangach.

Mae'r adnoddau gwerthfawr hyn bellach wedi'u copïo ar fformat DVD digidol, a byddai'n wych cael cyfle i ddangos y rhaglenni dogfen diddorol hyn unwaith eto. Rydym yn gobeithio y cânt eu dangos yn 2014 yn Llyfrgell y Glowyr Abertawe, ar gyfer 30 mlwyddiant y Streic, yn ystod digwyddiadau Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, ac efallai y caiff fideo Penny Windsor ei ddangos yn ystod dathliadau Dylan Thomas.

Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn dangos y rhaglenni dogfen hyn, neu i brynu copïau ohonynt, cysylltwch â Jazz Heritage Wales. At hyn, os oes gan unrhyw un dâp fideo o brofiadau menywod – sydd bellach yn hanes – ar gyfer ei ddigideiddio; neu os oes gennych syniadau am brosiectau a fyddai'n elwa o ddefnyddio fideo, gadewch i ni wybod os gwelwch yn dda.

Swansea Women's History Videos, c/o Jazz Heritage Wales 01792 482032 [jazzheritagewales@smu.ac.uk](mailto:jazzheritagewales@smu.ac.uk)

Silva Huws

a ....

Dyma Jenny Sabine yn derbyn neges: mae dyn ifanc yn Llyfrgell Glowyr De Cymru. meddai Sian Williams. Mae e'n edrych ar fideos o fenywod o gymoedd Tawe, Nedd a Dulais, yn ystod streic y glowyr yn 1984/5. Fyddai hi'n bosibl iddo ddefnyddio darn o'r ffilm mewn fideo ar gyfer trac ar albwm newydd y Manic Street Preachers?

Felly dyma Jenny yn cysylltu â Jen Wilson a minnau, a arferai fod, gyda Ursula Masson (cyd-sefydlydd yr Archif) yng Ngrŵp Hanes Menywod Abertawe yn yr 80au. Beth? Y Manic Street Preachers, band roc rhyngwladol llwyddiannus o'r Coed Duon, eisiau ail-ymweld â'u gwreiddiau mewn cyfnod arwyddocaol yn hanes y cymoedd – a'r cwmni cynhyrchu eisiau defnyddio darn o'n hen fideo ni? Ydyn yn wir, y maen nhw.

Daeth y gŵr ifanc, Keiran, o gwmni cynhyrchu fideo Like an Egg ym Mhontypridd, i gwrrd â Jen a mi yn swyddfa Jazz Heritage Wales (Women in Jazz gynt). Buom yn sgwrsio am ryw awr a hanner am wneud ein fideo 'Smiling and Splendid Women' flynyddoedd yn ôl.

Rhoddodd Keiran sic o £200 i'r Archif (sydd wedi mynd at brosiect Lleisiau o Lawr y Ffatri), ac un arall i JHW. Gwglwch 'Anthem for a Lost Cause' a gallwch weld ein fideo ar YouTube. Ein ffilmio ni sy'n gyfrifol am y darnau ffilm a'r trosleisio aneglur!

Gail Allen

Croesewir cyfraniadau i'r Cylchlythyr gan bob aelod. Os gallwch anfon eich cyfraniad yn ddwyieithog gwerthfawrogwn hynny'n fawr. Anfonwch eich cyfraniadau at: [newsletter@womensarchivewales.org](mailto:newsletter@womensarchivewales.org)

### Dyddiad derbyn copi y rhifyn nesaf: Dydd Gwener 15<sup>fed</sup> Chwefror 2014

Os hoffech gopi print bras o'r Cylchlythyr yn Gymraeg neu'n Saesneg, cysylltwch â Caroline ar y cyfeiriad e-bost uchod neu ffoniwch 01873 890540 os gwelwch yn dda.

Mae'r Cylchlythyr hwn ar gael i aelodau ar lein hefyd ar [www.womensarchivewales.org](http://www.womensarchivewales.org), yn Adran yr Aelodau.

Golygwch y Cylchlythyr hwn gan Caroline Fairclough, ac fe'i cyfieithwyd gan Catrin Stevens ac Elin Jones

## '... cynllwyn i anwybyddu hanner y boblogaeth yw hanesyddiaeth Gymreig'?

Dim ond cynnig hynny fel un dehongliad o brinder enwau menywod yn *Y Bywgraffiadur Cymreig* a wnaiff John Davies (*Hanes Cymru*, t.259), ond mae absenoldeb enwau menywod o'n hanes yn destun pryder, ac yn un o'r rhesymau dros sefydlu'r Archif ei hun. Yn ein cynhadledd eleni, gofynson ni i'r mynychwyr nodi enw un fenyw sydd yn haeddu cael ei chofio. Gofynson ni hefyd iddyn nhw nodi'r rheswm (neu'r rhesymau) dros eu dewis. Dyma rai o'r enwau a nodwyd:

Huldah BASSETT: Prifathrawes arbennig ac ymgyrchydd dros yr iaith Gymraeg.

Jennie Eirian DAVIES: Golygydd Baner ac Amserau Cymru, gwleidydd ac areithydd.

Alderman Rose DAVIES: Ymgyrchydd dros y Blaid Lafur, ymgeisydd seneddol, ffrind a chydweithwreg Keir Hardie.

Y Farwnes Anita GALE: Y fenyw gyntaf i gael ei phenodi i arwain y Blaid Lafur yng Nghymru

Anne Harriet HUGHES: Yn weithgar dros y Blaid Ryddfrydol, yr iaith Gymraeg, hawliau menywod a dirwest.

Dorcas May JONES (ne Fletcher): 'Gwasanaeth Cymdeithasol cyfan mewn un fenyw' ar stad Galon Uchaf, Merthyr Tudful.

Angharad LLWYD: Hanesydd Ynys Môn.

Mary Silyn ROBERTS: Trefnydd Cymdeithas Addysg i Oedolion, ymgyrchydd dros heddwch, ac yn aelod o nifer o ymgyrchoedd rhyngwladol dros heddwch

Sara Maria SAUNDERS: Ymgyrchydd dros hawliau menywod.

Yr Arglwyddes VERNEY: Ymgyrchydd dros addysg i fenywod.

Oes enw gyda chi i'w ychwanegu at y rhain? Gobaith yr Archif yw sefydlu basddata o fenywod a gyfrannodd at fywyd Cymru, ac sy'n haeddu lle yn ein hanes. Gall y basddata hwn fod yn ffynhonnell i fyfyrwyr ac ymchwilwyr eraill sy'n chwilio am syniadau newydd i weithio arnynt. Os hoffech gyfrannu, anfonwch enw a chwpl o fanylion atom, ynghyd â'ch enw a'ch manylion cyswllt. Byddwn yn cyhoeddi rhagor o enwau yn y Cylchlythyr yn y dyfodol. Gobeithiwn gasglu digon o enwau, ac o dystiolaeth, i herio unrhyw hanesydd sy'n anwybyddu cyfraniad menywod i'n hanes!

Elin Jones

### Dathlu ymgyrch Sheila Parry ym 1953



Roedd dathlu dwbl yng nghynhadledd flynyddol yr Archif eleni, wrth i ni groesawu Sheila Parry i'n plith, a hefyd Beth Davies, Llywydd Undeb Cenedlaethol yr Athrawon.

Ym mlwyddyn academiaidd 1952-3, arweiniodd Sheila ymgyrch er sicrhau tecach amodau yn neuaddau preswyl y menywod yn y Coleg Normal, Bangor. Cafodd gefnogaeth Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr yn hyn. Ar ddiwedd tymor y Nadolig 1952, rhybuddiwyd Sheila gan awdurdodau'r Coleg fod ei gweithgareddau yn peryglu ei lle yno. Roedd yn ei blwyddyn

olaf o hyfforddiant ar y pryd, ac felly roedd ei dyfodol cyfan yn y fantol.

Pan ddychwelodd Sheila i'r Coleg yn y flwyddyn newydd, parhaodd i ymgyrchu dros hawliau menywod, gyda chefnogaeth yr Undeb o hyd, a bendith ei rhieni hefyd. Cadwodd y Coleg ei addewid. Ym Mawrth 1953 diarddelwyd Sheila. Dyma ddechrau ymgyrchu ar ei rhan hi gan Undeb y Myfyrwyr ac Undeb Cenedlaethol yr Athrawon hefyd. Daeth Aelodau Seneddol y Rhondda, bro ei magwraeth, i'w chefnogi hefyd.

Gyda'u chefnogaeth, cafodd yr achos gryn sylw cyhoeddus, ac yn y diwedd fe gafodd Sheila orffen ei hyfforddiant - ond yng Ngholeg Hyfforddi Caerdydd. Ni chafodd ddychwelyd i Fangor - ond llwyddodd i fod yn athrawes.

Rhoddodd Sheila adroddiad bywiog a chofiadwy o'r hanes, gan ddyfynnu'n helaeth o'r ohebiaeth a fu rhyngddi a'r coleg, o'r erthyglau yn y wasg a'r sylwadau yn Hansard - a chyflwynodd yr archif bersonol a gwerthfawr hon i'n gofal ni hefyd.


Talodd deyrnged i'r cyngor a'r gefnogaeth a gafodd gan y ddau undeb, a hyfryd oedd clywed geiriau o gymeradwyaeth gan Beth Davies, a'n hatgoffodd hefyd fod y frwydr dros hawliau cyfartal i fenywod yn parhau o hyd.

Elin Jones



## Clirio petheuach Anti

Er gwaetha prosiectau cyffrous newydd AMC, a'r gwaith o hyrwyddo hanes menywod yng Nghymru yn gyffredinol, rhaid i ni gofio ein nod gwreiddiol sef cadw defnyddiau sy'n cyflwyno bywydau menywod cyffredin ac anghyffredin sydd wedi'n rhagflaenu. Yn arbennig rydym yn chwilio am ddefnydd all daflu goleuni ar brofiadau menywod yng Nghymru yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Os oes gennych chi ddefnydd y teimlwch y dylid ei ddiogelu cysylltwch â Charlotte Hodgson os gwelwch yn dda ar [collections@womensarchivewales.org](mailto:collections@womensarchivewales.org) <<mailto:collections@womensarchivewales.org>>, neu ag unrhyw aelod o'r pwyllgor.



## Seminar ar y Rhyfel Byd Cyntaf ym Mangor

Ar ddydd Sadwrn, Medi 21<sup>ain</sup> 2013, cynhaliwyd seminar ym Mhrifysgol Bangor ar y thema 'Trafod Ymwneud Menywod â'r Rhyfel Byd Cyntaf'. Mynychwyd y seminar a drefnwyd gan Addysg Gydol Oes ac Archif Menywod Cymru gan gynulleidfa dda o ferched a dynion o ledled gogledd Cymru. Cychwynnodd y diwrnod gyda phaned braf o de a sgwrs, cyn i'r gwir waith ddechrau. Lansiodd Annie Williams y rhaglen gyda sgwrs ddiddorol a oedd yn ysgogi'r meddwl am fywydau menywod wrth iddynt jyglo gwaith a chartrefi yn ystod y rhyfel. Roedd Hilary Davies yn garedig iawn wedi dod ag albymau a gadwyd yn ei theulu o ohebiaeth rhwng gwŷr a gwraig yn ystod blynyddoedd y rhyfel, ynghyd â chardiau post wedi'u brodio â llaw. Gwagedd yng ngwlad Belg a Ffrainc oedd yn cynhyrchu'r cardiau hyn ac arnynt negeseuon arbennig ar gyfer anwyliaid i'r milwyr eu prynu a'u hanfon adre. Roeddynt yn deimladwy iawn a dwedodd sawl menyw yn y gynhadledd eu bod yn teimlo'n emosiynol wrth edrych arnynt. Roedd Archif a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor wedi darparu detholiad eang o ddogfennau gwreiddiol y cafodd y gynulleidfa amser i'w darllen a'u gwerthfawrogi. Rhoddodd y dogfennau hyn bersbectif lleol, yn enwedig ar faterion amaethyddol ac am fyddin y tir, lle gwnaeth menywod gyfraniad canolog, nid yn unig fel gweithwyr amaethyddol yn cymryd lle dynion a oedd yn absennol, ond fel trefnwyr a chydlynwyr. Siaradwraig olaf y diwrnod oedd Sue Fellows. Mae Sue yn astudio am radd meistr yn Astudiaethau Menywod ym Mhrifysgol Bangor. Swyddogaeth bwysig y seminarau hanes hyn yw darparu cyfle i fyfyrwyr newydd, yn astudio hanes menywod, i roi papur mewn amgylchedd cyfeillgar a chefnogol. Rhoddodd Sue bapur hynod hyderus, cymwys a chyfareddol ar ei hymchwil i ferched a ffatrioedd arfau rhyfel yn Wrecsam. Roedd y seminar yn llwyddiant mawr ac rydym yn edrych ymlaen at y nesaf yn 2014.

Shan Robinson

## Digwyddiad yn y Senedd

Mae Christine Chapman, AC Cwm Cynon ac aelod o AMC ers cryn amser, wedi cytuno i noddi digwyddiad i'r Archif yn y Senedd ar fore Mercher 19eg Chwefror.



Prif bwrpas digwyddiad fel hwn yw codi proffil AMC ymysg ACau, i egluro'n gwaith, ac i'w hannog, gobeithio, i ystyried rhoi eu papurau ar adnau trwy gyfrwng yr Archif. Bydd yn gyfle hefyd i ni wahodd rhai o'n ffrindiau a'n cefnogwyr i ymweld ag adeilad y Senedd a chyfarfod ACau a'n haelodau. Gobeithir y bydd aelodau'r Archif yn mynychu'r digwyddiad, i gwrdd ag ACau a rhwydweithio'n gyffredinol. Bydd lluniaeth ysgafn ac arddangosfa o waith yr Archif.

Os hoffech fynychu'r digwyddiad hwn, cysylltwch â Jenny Sabine os gwelwch yn dda ([j.sabine367@btinternet.com](mailto:j.sabine367@btinternet.com)); mae'n rhaid i ni roi rhestr gyflawn o enwau ymwelwyr â'r Senedd.

## Adroddiad o'r Gynhadledd

Mynychodd tua 70 o bobl y cyfan neu ran o'n Cynhadledd eleni yng Nghanolfan Soar, Merthyr Tudful. Roedd cysylltiad topograffig i rai o'r papurau; siaradodd Joe England am y teulu Crawshay, Mary MacGregor am addysg ei mam ddechrau'r 20<sup>fed</sup> ganrif. Ymhlith siaradwyr eraill roedd Angela John, y mae ei llyfr newydd ar Arglwyddes Rhondda (Turning the Tide. The Life of Lady Rhondda) newydd ei gyhoeddi, Sheila Parry gydag Elin Jones (gweler tudalen 3), Alexandra Rees ar gynrychioliadau o anabledd, Rhian Greaves ar fenywod yn ystod streic y glowyr yn 1984, Audrey Griffiths ar bobl oedd yn gysylltiedig ag Elizabeth Andrews, Rosemary Scadden ar fywydau morwynion o Gymru a sgwrs ddefnyddiol gan Charlotte Hodgson ar ofalu am archifau AMC. Terfynodd y Gynhadledd gyda thrafodaeth frwd ac adeiladol ar ddyfodol yr Archif a fydd yn gymorth i lunio polisi ar gyfer y dyfodol.